Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 07.12.2020

## Rheoliadau coronafeirws: cwestiynau cyffredin

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau mwy o wybodaeth am y rheoliadau coronafeirws sydd yn eu lle ers 6:00pm ddydd Gwener 4 Rhagfyr 2020, gan gynnwys y cyfyngiadau ar deithio i rannau eraill o'r DU. Ewch i:

https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau

- Ffurfio swigen Nadolig gyda ffrindiau a theulu

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau canllawiau ar ffurfio swigen Nadolig gyda ffrindiau a theulu. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol rhwng 23 a 27 Rhagfyr 2020. Dylech ddilyn y canllawiau a nodwyd yn y rheoliadau coronafeirws: cwestiynau cyffredin uchod, cyn ac ar ôl y cyfnod hwn. Ewch i:

https://llyw.cymru/ffurfio-swigen-nadolig-gyda-ffrindiau-theulu

## Cronfa Croesawu'r Cwsmer yn Ddiogel

Mae Cronfa Croesawu'r Cwsmer yn Ddiogel wedi cael ei sefydlu i gefnogi busnesau mewn canol trefi a dinasoedd i weithredu'n ddiogel dan heriau eithafol o ganlyniad i Covid-19. Rydym yn cydnabod bod busnesau'n wynebu cyfnod newydd o gynllunio at weithredu drwy fisoedd y gaeaf ac o wneud paratoadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r gronfa ar gael i fusnesau annibynnol, bach a chanolig eu maint sy'n gweithredu mewn Canol Trefi a Dinasoedd dynodedig yng Ngwynedd i'w cefnogi i gydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol Llywodraeth Cymru drwy osod dodrefn ac offer stryd allanol. Am fwy o wybodaeth, ac i weld ym mha leoliadau mae'r grant ar gael, ewch i:

https://bit.ly/CronfaCroesawuCwsmerSaff

# Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd y Nadolig hwn

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgyrch ar y gwefannau cymdeithasol yn annog pobl i gefnogi busnesau lleol y Nadolig hwn. Os ydych yn hyrwyddo eich cynnyrch a chynigion ar Facebook, gallwch rannu eich post drwy tagio ni ar:

https://bit.ly/PrynuLleolGwyneddBuyLocal

Fel rhan o'r ymgyrch, bydd gwybodaeth am lu o fusnesau lleol i'w gweld ar y wefan isod:

https://bit.ly/prynulleol2020

Petai busnes am gael ei ychwanegu i'r rhestr ar y wefan yma, gellir cysylltu â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

# Brexit: Diwedd Cyfnod Pontio'r UE

Gadawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020 ac mae wedi bod mewn cyfnod pontio a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod pontio, mae rhan fwyaf o reolau a threfniadau masnachu presennol yr UE wedi aros ar waith heb unrhyw newidiadau sylweddol yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Fodd bynnag, mae diwedd y cyfnod pontio yn prysur agosáu a bydd hyn yn golygu newidiadau i'r rheolau presennol ar fasnachu, yn ogystal â'r hawl i deithio heb fisâu i wledydd eraill yr UE. Mae gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer nifer o sectorau sydd angen paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio wrth i ni adael yr

UE ddiwedd y flwyddyn i'w gael ar Porth Cyfnod Pontio'r UE Busnes Cymru. Ewch i:

https://businesswales.gov.wales/eu-transition-portal/cy

## Gweminar newid telerau ac amodau cyflogaeth: osgoi camgymeriadau costus 9 Rhagfyr 2020

I lawer o fusnesau, mae'r wyth mis diwethaf wedi bod yn gyfnod heriol. Wrth i Gynllun Cadw Swyddi Coronavirus ddod i ben ar 31 Mawrth 2021, nawr yw'r amser i gyflogwyr ystyried eu cynlluniau ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Fel rhan o'r broses, mae'n bosib y bydd rhai cyflogwyr yn edrych ar ffyrdd o leihau eu costau, naill ai dros dro neu'n barhaol, trwy newid telerau ac amodau cyflogaeth. Bydd y weminar hon gan Fusnes Cymru, wedi'i chyflwyno gan Jennifer Gibson o Gyfreithwyr Lanyon Bowdler, yn arwain cyflogwyr trwy'r broses o wneud newidiadau cyfreithlon i delerau cyflogaeth gytundebol yn ogystal â thrafod sut i osgoi problemau posib. Mae'r weminar yn cael ei chynnal ar 9 Rhagfyr 202 o 10:00am – 11:00am. Am ragor o wybodaeth ac er mwyn archebu eich lle, ffoniwch 01745 585025 neu anfonwch e-bost i:

northwales@businesswales.org.uk

## RCS yn Gwneud Gwahaniaeth

Ymunwch â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar-lein RCS Ddydd Iau 10 Rhagfyr 2020, 10:00am – 11:30am, i gael gwybod sut mae sefydliad bach yng Ngogledd Cymru wedi creu gwerth effaith gymdeithasol o bron i £5m mewn blwyddyn. Byddant yn cyflwyno eu Hadroddiad Effaith diweddaraf yn dangos y gwahaniaeth maent wedi ei wneud yn 2019-20. Byddant hefyd yn son am eu rhaglen Hyrwyddwyr Llesiant yn y Gweithle, ac yn rhannu canlyniadau a straeon o'u cynllun peilot IPS GALLAF Weithio. Bydd sefydliadau a busnesau cymwys o Gymry sy'n mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn derbyn copi am ddim o'r Cynllunydd Blwyddyn Llesiant 2021 (poster A2) gwych – tra bod stoc ar ôl! Cofrestrwch yma:

https://bit.ly/36BlmgQ

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru